**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

363/51

# DRAMA AC ASTUDIAETHAU'R THEATR

## DR3: Uned 3 Dadansoddi Testun

P.M. DYDD GWENER, 8 Mehefin 2007

(1½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Mae pob cwestiwn yn cynnwys dwy ran. Mae'r rhan gyntaf, (i), yn ymwneud â'r hyn sy'n cymell y cymeriadau a gweithrediadau, a'r ail ran, (ii), yn ymwneud ag awyrgylch a photensial llwyfannu.

Cewch gynnwys diagramau lle bo angen. Os defnyddiwch bapur ar wahân ar gyfer y rhain, a wnewch chi ei osod yn eich llyfryn ateb i'w gyflwyno.

Mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau; cynghorir chi i rannu eich amser yn unol â hynny.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran-gwestiwn.

Atgoffir chi ei bod yn angenrheidiol i chi ysgrifennu Cymraeg da a chyflwyno eich atebion yn drefnus.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

Atebwch y **ddwy** ran o'r cwestiwn ar **un** testun gosod a ddewiswyd gennych.

*Yn rhan (i), cewch gyfeirio, lle bo'n briodol, at rannau eraill o'r ddrama, neu at y ddrama fel cyfanwaith, ond dylai'r ateb ganolbwyntio ar yr olygfa benodol.*

**1.** ***ROMEO AND JULIET***

Edrychwch eto ar ddechrau Act 2, Golygfa 2, o ddiwedd araith Romeo:

*I fedru cwrdd â'i grudd!*

hyd at y pwynt lle mae Romeo'n dweud:

*Och, mi wn*
*Fod mwy o berygl yn dy lygaid di*
*Nag sy mewn ugain o'u cleddyfau hwy.*

(i) Dadansoddwch y berthynas ddramatig rhwng Romeo a Juliet yn y darn hwn. [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am symudiadau a lleoliad y cymeriadau yn y darn hwn? Rhowch resymau dros eich syniadau. [15]

**2.** ***THE SCHOOL FOR SCANDAL***

Edrychwch eto ar Act 1, Golygfa 1, hyd at y pwynt lle mae'r gwas yn dod i mewn.

(i) Dadansoddwch y berthynas ddramatig rhwng Lady Sneerwell a Snake yn y darn hwn. [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am symudiadau a lleoliad y cymeriadau yn y darn hwn? Rhowch resymau dros eich syniadau. [15]

**3.** ***TŶ DOL***

Edrychwch eto ar ddiwedd Act 3, o'r pwynt lle mae Nora'n dweud wrth Torvald nad yw hi'n ei garu mwyach, hyd at ddiwedd y ddrama.

(i) Dadansoddwch y berthynas ddramatig rhwng Nora a Torvald yn y darn hwn. [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am symudiadau a lleoliad y cymeriadau yn y darn hwn? Rhowch resymau dros eich syniadau. [15]

## ADRAN B

Atebwch y **ddwy** ran o'r cwestiwn ar **un** testun gosod a ddewiswyd gennych.

*Yn rhan (i), cewch gyfeirio, lle bo'n briodol, at rannau eraill o'r ddrama, neu at y ddrama fel cyfanwaith, ond dylai'r ateb ganolbwyntio ar yr olygfa benodol.*

**4. *PRIODAS WAED***

Edrychwch eto ar ddiwedd Act 1, Golygfa 1, o'r pwynt lle mae'r Priodfab yn mynd oddi ar y llwyfan hyd at ddiwedd yr olygfa.

(i) Pa gyngor fyddech yn ei roi i actor sy'n perfformio rhan y Fam yn y darn hwn? (Cyfeiriwch at yr hyn sy'n cymell y cymeriadau, perthynas cymeriadau â'i gilydd, defnydd o'r llais a symudiad.) [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r darn hwn? Dylech gynnwys manylion am y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. [15]

**5. *THE ZOO STORY***

Edrychwch eto ar yr adran yn agos at ddechrau'r ddrama, o'r pwynt lle mae Jerry'n dweud ar ddiwedd ei araith hir gyntaf '*Never. Never ever*', hyd at y pwynt lle mae Jerry'n dweud '*I'm Jerry*'.

(i) Pa gyngor fyddech yn ei roi i actor sy'n perfformio rhan Jerry yn y darn hwn? (Cyfeiriwch at yr hyn sy'n cymell y cymeriadau, perthynas cymeriadau â'i gilydd, defnydd o'r llais a symudiad.) [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r darn hwn? Dylech gynnwys manylion am y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. [15]

**6. *THE ROYAL HUNT OF THE SUN***

Edrychwch eto ar Act 1, Golygfa 5.

(i) Pa gyngor fyddech yn ei roi i actor sy'n perfformio rhan Pizarro yn y darn hwn? (Cyfeiriwch at yr hyn sy'n cymell y cymeriadau, perthynas cymeriadau â'i gilydd, defnydd o'r llais a symudiad.) [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r darn hwn? Dylech gynnwys manylion am y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. [15]

**7. *WYNEB YN WYNEB***

Edrychwch eto ar dop tudalen 50 hyd at ddiwedd y ddrama.

(i) Pa gyngor fyddech yn ei roi i actor sy'n perfformio rhan Laura yn y darn hwn? (Cyfeiriwch at yr hyn sy'n cymell y cymeriadau, perthynas cymeriadau â'i gilydd, defnydd o'r llais a symudiad.) [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r darn hwn? Dylech gynnwys manylion am y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. [15]